Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher yr 22ain o Fehefin 2011 am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Julia Jones, y Dirprwy Faer y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. David Williams
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Christopher Parish

Cyn y cyfarfod, rhoddodd Mr Geoffrey Williams gyflwyniad i'r Cyngor ar y prosiect Croeso i Gerddwyr. Roedd y cynllun yn tyfu o ran poblogrwydd ar draws Prydain ac os bydd yn llwyddiannus, gallai ddenu llawer o ymwelwyr i'r Dref. Byddai'r Cyngor yn astudio manylion yr ymglymiad angenrheidiol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Dywedodd yr SCCH Roger Anthony bod dwy warant cyffuriau wedi cael eu gweinyddu a bod ychydig bach o ganabis wedi cael ei adfer. Roedd drych adain wedi cael ei ddifrodi tu allan i westy'r Cawdor. Byddai'n cael ei gadarnhau y bydd Gorsaf Heddlu Llandeilo yn cau a byddai'r Swyddogion yn cael eu lleoli yn Swyddfeydd y Cyngor Sir ar Heol Cilgant.
Holodd y Cyng. Dawn Wallace a fyddai'n bosib i gamera cyflymder symudol llaw i gael ei ddefnyddio yn y Dref, i ganfod modurwyr sy'n goryrru. Byddai'r SCCH Anthony yn gwneud ymholiadau.

Cof 90 / Mehefin / 11 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 25ain o Fai 2011, yn gofnod cywir, gyda'r newid canlynol:-
Yn dilyn Cof 48/ Mehefin /11.(3) *trafodwyd regalia'r Cyngor o dan Cof 49/ Mehefin/11(1)*
Ac yna mae Gŵyl y Synhwyrau'n newid i Cof 49/ Mehefin /11(2)
Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Wener y 27ain o Fai 2011, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Ailddechreuedig, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 6ed o Fehefin 2011, yn gofnod cywir, gyda'r newidiadau canlynol:-
Cof 62/ Mehefin /11 (.5) newid y Maer i'r Dirprwy Faer, cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace.
Cof 62/Mehefin /11 (.6) newid y Cyng. Edward Thomas i'r Cyng. Ros Bellamy. .Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace.

Cof 63/ Mehefin /11 (B) Angen ychwanegu enw'r Cyng. Charlotte Leadbeater at aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.
Cof 64/Mehefin/11(3) cynigwyd y grŵp gan y Cyng. Edward Thomas ac fe'i heiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace, nid y Cyng. Dawn Wallace.
Cof 64/ Mehefin /11 (4) Eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas, nid y Cyng. Colin Jenkins.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8fed o Fehefin 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn, ac eithrio Cofnod 76/ Mehefin /11 a Chofnod 77/ Mehefin /11.

Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod Cof/76/ Mehefin /11 a Cof 77/ Mehefin /11 yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8fed o Fehefin 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn, gyda'r ychwanegiad canlynol:

O dan Cof 83/ Mehefin /11 Talwyd Orchardweb, CGGC ac Eglwys Sant Teilo trwy gyfrwng y broses Bancio ar-lein. Talwyd pob anfoneb arall gyda siec.

O dan Cof 85/ Mehefin /11 Angen ychwanegu y cytunwyd y byddai £2,000 yn cael ei dalu i mewn i Gyfrif y Maer, a bod y llofnodion ar gyfer Cyfrif y Maer yn cael eu newid.

Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 91 / Mehefin / 11 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 78/ Mehefin /11. Cynigodd y Cyng. Roy Davies bod yr adroddiad a baratowyd i ystyried Cais Cynllunio E/24435, yn yr Hen Farchnad Nwyddau, yn cael ei dderbyn gan y Cyngor.

Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Cafodd y bleidlais ei chario gan 4 pleidlais o blaid, gyda 3 yn ymatal. Byddai'r Clerc yn anfon ei adroddiad i holl aelodau Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gâr.

Cof 92/ Mehefin / 11 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat CSG. Holiadur. Cytunwyd i drafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio.
2. Cynllun Datblygu Lleol CSG. Ymgynghoriad. Byddai'r mater yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio.
3. Gwilym Hughes ynglŷn â'r Hen Neuadd Farchnad. Trefnwyd cyfarfod gyda Swyddogion CSG, i drafod cynlluniau eraill i ddatblygu'r Hen Neuadd Farchnad. Byddai'r Cyng. Edward Thomas yn mynychu i gynrychioli'r Cyngor Tref.
4. Oliver Matthews, Swyddog Gwyddonol CSG, ynglŷn ag Ansawdd Aer yn Llandeilo. Byddai'r Clerc yn archwilio adroddiadau blaenorol, byddai'r Cyng. Edward Thomas yn eu hastudio ac yna byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
5. Philip Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd CSG. Byddai'r Cyngor Sir yn ailagor trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ffordd

Osgoi, fel rhan o strategaeth y Cyngor Sir i wella ansawdd aer yn y Dref. Roedd Mr Davies yn dymuno i'r Cyngor Tref i ail-gadarnhau ei sefyllfa mewn perthynas â llwybr y ffordd osgoi.
Cynigodd y Cyng. Roy Davies bod y Cyngor o blaid y llwybr Porffor ffafriedig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Cafodd y bleidlais ei chario gan 7 pleidlais o blaid y cynnig, gyda dau'n ymatal.

Cof 93 / Mehefin / 11 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Un Llais Cymru. Ynglŷn â thaflen Cam-drin Domestig. Nodwyd
2. Prosiect Miliynau'r Bobl y Jiwbilî, yn gofyn am gymorth ar gyfer elusen leol. Nodwyd
3. Un Llais Cymru ynglŷn â manylion am gyhoeddiadau. Byddai'r Clerc yn arddangos copïau yn y swyddfa.

Cof 94 / Mehefin /11 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

i)	Absolute Marquees (digwyddiad ym Mharc Penlan)	£ 547.92
ii)	Des Davies (treuliau'r digwyddiad ym Mharc Penlan)	£ 30.81
iii)	Mr Flag.com Ltd (baneri i addurno'r stryd)	£ 163.47
iv)	BT (rhent chwarterol) (talwyd debyd uniongyrchol 27.6.11)	£ 114.04
v)	JW Thomas & sons (bwydlenni cinio'r Maer)	£ 105.00
vi)	Band llydan BT (talwyd trwy ddebyd uniongyrchol)	£ 50.40
vii)	C & M Bacon (atgyweirio cloc yr eglwys)	£ 400.00
viii)	Circus Dayze (digwyddiad ym Mharc Penlan)	£ 200.00

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu pasio i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid. Byddai eitemau i),ii),iii) yn cael eu talu trwy BACS, a byddai eitemau v) vii) viii) yn cael eu talu gyda siec.

2. Archwiliad 2010-11.
Dywedodd y Swyddog Cyllid bod y rhybudd i archwilio'r Cyfrifon yn barod i'w arddangos.

Cof 95 / Mehefin /11 Materion Ariannol Eraill

1. Aelodaeth Flynyddol o Gymdeithas y Clercod £95. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y ffi aelodaeth yn cael ei dalu ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
2. Llythyr yn gofyn am gymorth ariannol oddi wrth yr Ŵyl Gerdd a Blodau. Arwyddodd y Maer y Cyng. Julia Jones a'r Swyddog Cyllid y Llyfr datganiadau o fuddiant ac aethant allan o'r ystafell.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod £3,000, sef y swm a neilltuwyd ar gyfer y rhodd i'r Ŵyl, yn cael ei roi. Roedd pawb o blaid.

Cof 96 / Mehefin / 11 Doedd dim Adroddiad oddi wrth y Cynghorydd Sir.

Nid oedd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones yn medru bod yn bresennol.

Cof 97/ Mehefin /11 I adolygu'r penderfyniad a wnaed yng Nghofnod 12/Ebr/11(5) ar y 13eg o Ebrill 2011.

Penderfynwyd gohirio'r mater nes cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf, pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael.

Cof 98/ Mehefin /11 Materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd.

Roedd y Cynghorwyr yn poeni am y nifer o geudyllau a oedd yn amlygu ar ffyrdd y Dref. Byddai'r Clerc yn cysylltu â CSG i ofyn am i'r gwaith atgyweirio angenrheidiol i gael ei wneud.

Fe wnaeth y Cyng. Dawn Wallace grybwyll y mater o gerbydau'n goryrru o amgylch y Dref, gyda llwybr penodol o Greenfield Place trwy Rodfa Dinefwr i Heol y Garreg Las. Byddai'r Heddlu'n cael eu hysbysu.

Cof 99 / Mehefin / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cyflwynodd y Swyddog Technegol ei adroddiad i'r Cyngor. Dywedodd bod Pont y Brenin yn dal i gael ei fandaleiddio trwy agor y rhwyll ar yr ochr.

Roedd y meinciau wedi cael eu symud o'r llawr cyntaf yn Neuadd y Sir. Byddai un fainc yn cael ei storio a byddai'r llall yn cael ei gosod yn y cyntedd.

Roedd Mr Davies a Mr Bacon yn dal i gynnal a chadw cloc yr Eglwys.

Cof 100 / Mehefin / 11 Adroddiad y Maer.

Rhoddodd y Maer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis diwethaf.

Cof 101 / Mehefin /11 Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan

Rhoddodd y Clerc adroddiad bras ar y digwyddiad. Diolchodd y Cyng. Edward Thomas i bawb a gyfrannodd i'w wneud yn ddigwyddiad llwyddiannus, er gwaethaf y tywydd gwael. Byddai adroddiad terfynol yn cael ei roi yn dilyn cyfarfod o'r Is-grŵp.

Cof 102/ Mehefin /11 Adroddiadau Eraill

Byddai'r is-grŵp Tân Gwyllt yn cwrdd gyda'r Clwb Rygbi mewn perthynas â'r awgrym i gael coelcerth yn yr arddangosfa Tân Gwyllt. Roedd y Clwb Rygbi wedi gofyn i'r Cyngor i ystyried ei sefyllfa mewn perthynas â chael coelcerth a ffair bleser yn y digwyddiad. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins na ddylid cael coelcerth yn y digwyddiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace.

Cafodd y bleidlais ei chario gan 7 pleidlais o blaid y cynnig, gyda 2 yn ymatal.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod ffair bleser o faint cymedrol yn cael ei chaniatáu yn ystod y digwyddiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Cafodd y bleidlais ei chario gan 7 pleidlais o blaid y cynnig, gyda 2 yn ymatal.

Cof 103 / Mehefin /11 Eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas bod yr Asiantaeth Cefnffyrdd a Llywodraeth Cymru wedi cytuno byddai croesfan pâl yn cael ei osod tu allan i'r ysgolion Cynradd.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bleidlais o ddiolch i'r Cyng. Thomas am ei ddyfalbarhad wrth ymgyrchu i gael croesfan. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Byddai Ysgol GG Llandeilo yn cael ei chyflwyno â'i hail Faner Werdd am 10.30yb ar ddydd Gwener y 24ain o Fehefin 2011. Byddai'r Clerc yn anfon llythyr o longyfarchiadau i'r ysgol.

Dywedodd y Cyng. Charlotte Leadbeater bod diwrnod Agored i godi arian yn cael ei gynnal yn y Neuadd Ddinesig ar ddydd Sadwrn y 13eg o Fedi 2011. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Cyngor yn archebu bwrdd am bris o £10. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod dyddiad Cyfarfodydd y Pwyllgorau Cynllunio a Chyllid yn cael eu newid o'r 13eg o Orffennaf 2011 i'r 6ed o Orffennaf 2011. Byddai hyn yn cael ei wneud er mwyn osgoi peidio â chael cworwm ar gyfer y cyfarfod gwreiddiol, oherwydd bod y dyddiadau'n cyd-daro â'r Ŵyl Gerdd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Dosbarthodd y Clerc galendr o ddyddiadau cyfarfodydd o fis Medi 2011 nes Ebrill 2012. Roedd pawb o blaid y dyddiadau sy'n arfaethedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25yh.